Datganiad Wasg

Helpu i lunio'r dyfodol Help tomorrow take shape

07 Hydref 2009

Ymarfer y Cyfrifiad: 'Porwyr penwyn' Môn yn cael blas ar holiadur ar-lein newydd

Dydd Sul 11 Hydref 2009 fydd diwrnod Ymarfer y Cyfrifiad ar Ynys Môn ac mae 'porwyr penwyn' y gymuned yn barod i roi cynnig ar yr holiadur ar-lein diogel newydd.

Mae Ynys Môn yn un o dair ardal yn unig yng Nghymru a Lloegr sy'n cymryd rhan mewn Ymarfer 2009 y Cyfrifiad sydd â'r nod o dreialu'r holiadur ar-lein newydd a'r broses o ddosbarthu holiaduron papur drwy'r post y bwriedir eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Un preswylydd lleol sy'n awyddus i brofi'r holiadur ar-lein newydd yw Bill Hart, sy'n 70 oed, a'i wraig Karleen (64 oed). Cafodd y ddau eu magu ar yr ynys. "Yn ystod ein bywydau, rydym wedi cael ein cynnwys mewn chwe holiadur y cyfrifiad, fel rhan o gymuned Môn gan amlaf. Rwy'n gwneud llawer o waith ar y cyfrifiadur fel rhan o'm dyletswyddau fel llywydd elusen, ac mae Karleen yn ei ddefnyddio i drefnu ein gwyliau, felly rydym yn ddigon cyfforddus i lenwi'r holidaur ar lein y tro hwn."

Mae llawer o breswylwyr hŷn Caergybi, gan gynnwys Bill a Karleen, yn gwirfoddoli ac yn ymweld yn aml â Phartneriaeth Plas Cybi sy'n rhoi cyfle i bobl leol ddefnyddio cyfleusterau cyfrifiadurol. Dywedodd Bill:

Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

Anfonwyd Gan
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Cyswllt
Media Office
01329 44 7654

E-bost
2011censusmedia@ons.gsi.gov.uk

Ymlewch a
www.census.gov.uk/Media

“mae yna lawer o ‘borwyr penwyn’ yma drwy’r amser ac rwy’n siŵr y bydd llawer ohonyn nhw’n gwneud fel rydym ni ac yn llenwi’i holiadur ymarfer ar lein.”

Drwy lenwi’r holiadur bydd Bill a Kathleen hefyd yn sicrhau y bydd cenedlaethau’r teulu ac achyddion y dyfodol yn gallu creu darlun lliwgar a chywir o’r gorffennol.

Dywedodd Peter Moore, rheolwr ardal y cyfrifiad ar gyfer Ynys Môn: “Mae’r wybodaeth a geir o’r cyfrifiad yn helpu’r llywodraeth i ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol, ac yn helpu awdurdodau lleol i benderfynu ym mha feysydd y dylid gwario’r arian hwnnw. Mae penderfynu pa faint o athrawon neu feddygon sydd eu hangen, cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus a chymorth gyda phrosiectau cymunedol fel Partneriaeth Plas Cybi i gyd yn dibynnu ar y mathau a nifer y bobl sy’n byw yno.”

Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Glen Watson: “Bydd y preswylwyr ar Ynys Môn sy’n cymryd rhan yn yr ymarfer wedi derbyn eu holiaduron erbyn hyn. Rydym am i bawb eu llenwi ddydd Sul 11 Hydref, neu mor fuan â phosibl ar ôl hynny, a’u dychwelyd atom cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni brofi’r systemau a’r prosesau rydym wedi’u sefydlu mewn modd effeithiol er mwyn sicrhau llwyddiant ar gyfer 2011.”

Ffeithiau am Ymarfer 2009 y Cyfrifiad:

- Cynhelir yr ymarfer mewn tair ardal - Caerhirfryn, Bwrdeistref Newham yn Llundain ac Ynys Môn
- Gofynnir i gyfanswm o tua 140,000 o gartrefi yn yr ardaloedd hyn gymryd rhan ar Ddiwrnod Ymarfer y Cyfrifiad, 11 Hydref 2009
- Mae'r ardaloedd hyn yn groestoriad o'r boblogaeth ac yn cynnwys amrywiaeth eang o fathau o dai
- Ar yr un pryd â'r ymarfer cynhelir prawf ar raddfa fach yn Birmingham
- Bydd y prawf yn Birmingham yn cynnwys 17,000 o gyfeiriadau a bydd yn defnyddio rhai o'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n cael eu dilyn o fewn yr ymarfer
- Gofynnir yr un cwestiynau i bawb ar yr un diwrnod er mwyn cael cipolwg o'r boblogaeth ar yr un adeg
- Mae'r cyfrifiad yn hawdd ei lenwi, yn gyfrinachol a gellir ei lenwi ar lein am y tro cyntaf
- Ni chyhoeddir canlyniadau'r ymarfer ond fe'u defnyddir i wella gweithdrefnau ar gyfer 2011
- Mae cyfanswm o 57 o gwestiynau yng Nghymru, 14 yn ymwneud â'r cartref a'i ystafelloedd a 43 o gwestiynau ar gyfer pob aelod unigol o'r cartref i'w llenwi
- Gellir ateb y rhan fwyaf o gwestiynau drwy nodi tic
- Mae cymryd rhan yn Ymarfer 2009 y Cyfrifiad a'r prawf yn Birmingham yn wirfoddol. Bydd yn ofynnol i bawb gymryd rhan yng Nghyfrifiad 2011

Am ragor o wybodaeth am Ymarfer 2009 y Cyfrifiad neu i ofyn am gopi o gwestiynau'r cyfrifiad mewn braille neu ieithoedd eraill, ewch i www.cyfrifiad.gov.uk neu www.census.gov.uk neu ffoniwch 0300 0200 930.

Ceir hefyd glipiau fideo Iaith Arwyddion Prydain a recordiadau sain ar y safle.